



Ein cyf/Our ref: qA138094

Ian Llewelyn
Rheolwr Blaengynllunio
Cyngor Sir Caerfyrddin
Is-adran Gynllunio
Adran yr Amgylchedd
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
SA31 1LE

12/11/20

**Cyngor Sir Caerfyrddin: Diwygiad cyntaf o'r Cytundeb Cyflenwi
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u
diwygiwyd)**

Diolch ichi am eich e-bost ar 6 Tachwedd yn gofyn am gytundeb i ddiwygio eich Cytundeb Cyflenwi yng ngoleuni'r amgylchiadau eithriadol sy'n ymwneud â Covid-19.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn ddyletswydd statudol a osodir ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLIau). Mae'r cynllun yn offeryn corfforaethol ac yn mynegi blaenoriaethau ACLIau o ran defnydd tir wrth ymdrin â materion cenedlaethol a lleol, ac mae adfer o bandemig y coronafeirws yn un ohonynt. Yn y llythyr Gweinidogol (dyddiedig 7 Gorffennaf 2020), tynnodd y Gweinidog sylw at bwysigrwydd y system gynllunio i helpu i lywio dyfodol gwell i Gymru wrth inni ddechrau adfer. Mae sicrhau bod cynllun datblygu cyfredol yn ei le yn sail i'r system gynllunio ac yn atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i weithredu system a arweinir gan gynllun.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi mynegi sylwadau ar eich gwerthusiad o effaith Covid-19 ar eich sylfaen dystiolaeth ar yr adeg hon. Wrth symud ymlaen, mae proses y CDLI yn darparu cyfle i graffu ar bob darn o dystiolaeth, gan gynnwys goblygiadau'r pandemig, a'u hystyried yn fanwl yn ystod pob cam ymgynghori. Byddwn yn ymateb yn ffurfiol drwy'r broses honno os bydd gennym unrhyw bryderon.

Mae eich Cyngor yn cynnig estyniad ffurfiol i'r amserlen bresennol y cytunwyd arni, a fydd yn arwain at 9 mis o oedi cyn cyflwyno'r cynllun i'w harchwilio. Gan fod angen newidiadau i'r


Cynllun Adneuo yn sgil pandemig y coronafeirws, rydych wedi cynnig darparu Newidiadau â Ffocws ym mis Chwefror 2021, gan gyflwyno'r cynllun i'w harchwilio ym mis Mai 2021 gyda'r gobaith i'w fabwysiadu yn haf 2022 (Tabl 2 ac Atodiad 1). Mae'r 9 mis o oedi yn adlewyrchu'r cyfyngiadau cenedlaethol a gyflwynir mewn ymateb i bandemig y coronafeirws ac yn benodol, anallu pobl a busnesau i weithredu fel y gwnaethant cyn yr argyfwng. Gan gymryd hynny i ystyriaeth, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod un cyfnod sengl o 3 mis ar gyfer llithriadau o ran y Cytundeb Cyflenwi hwn (fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 2.2.13) yn ychwanegu rhywfaint o hyblygrwydd at yr amserlen cyn bod fersiwn ddiwygiedig ffurfiol yn ofynnol.

Mae'r prawf 'cadernid' y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn drwy'r archwiliad yn edrych i weld ar yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb Cyflenwi cytunedig, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Nodaf fod eich Cytundeb Cyflenwi wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 22 Hydref 2020, ac felly addaswyd y Cynllun Cynnwys Cymunedau i adlewyrchu cyngor diweddaraf y Llywodraeth a'r gofynion cadw pellter cymdeithasol ar yr adeg honno. Nodaf hefyd eich bod wedi mynegi y bydd angen addasu'r ffordd o drafod gyda chymunedau a rhanddeiliaid ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill i baratoi'r cynllun. Ystyrir bod hyn yn synhwyrol i wneud y defnydd gorau posibl o gyfleoedd trafod ac i addasu i gyfyngiadau pan gânt eu cyflwyno yn unol â rheoliadau a chanllawiau'r Llywodraeth.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflenwi a gyflwynwyd gennych, gallaf **gadarnhau ein bod yn cytuno** i'r amserlen ddiwygiedig a nodir yn Nhabl 2 ac Atodiad 1 fel y darparwyd ar ei chyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Dylai'r fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflenwi fod ar gael bellach i'r cyhoedd ei gweld yn unol â gofynion Rheoliad 10.

Yn gywir,



Neil Hemington
Prif Gynllunydd
Chief Planner

CC:

Llinos Quelch, Pennaeth Cynllunio
LQuelch@carmarthenshire.gov.uk

Owain Enoch, Swyddog Blaengynllunio
OREnoch@carmarthenshire.gov.uk